Cadw

Casgliad Priodas

Benðithion a Ffotograffiaeth Prioðasol

Bendithion Priodasol

Chwilio am gastell, abaty neu gapel ar gyfer eich ðiwrnoð arbennig?

Mae gan Caðw amrywiaeth o leoliaðau trawiaðol i chi ððewis ohonyn nhw.

Mae ein holl safleoedd sydd ar gael yn cynnig:

Capasiti: 40 o bobl – gan gynnwys y cwpl, offeiriad a ffotograffydd.

Mae gwesteion ychwanegol yn talu prisiau mynediad safonol wrth ddod i mewn.

Cyfnod: 90 munud

Ar gyfer lleoliadau seremonïau cyfreithiol, cymerwch olwg ar ein llyfryn lleoliad priodas.

03000 257 182

cadwcommercial@llyw.cymru

Llun: Castell Talacharn

Ffotograffiaeth

Mae ein lleoliadau ardderchog yn darparu cefndir perffaith ar gyfer eich ffotograffau, boed yn ddyweddïad, prioda neu unrhyw achlysur arall.

Mae ein holl safleoedd sydd ar gael yn cynnig:

Capasiti: 15 o bobl – gan gynnwys y cwpl a'r ffotograffydd. Mae gwesteion ychwanegol yn talu prisiau mynediad safonol wrth fynd i mewn.

Cyfnod: 90 munud

03000 257 182
cadwcommercial@llyw.cymru

Llun: Abaty Glyn y Groes

Safle	Bendith Briodasol (Yn Cynnwys Taw)	Ffotograffiaeth Priodasau (Yn Cynnwys Taw)
Castell Biwmares	£400.00	£160.00
Gwaith Haearn Blaenafon	£335.00	£140.00
Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion	£270.00	£120.00
Castell Caernarfon	£500.00	£200.00
Castell Cilgerran	£270.00	£120.00
Castell Cricieth	£335.00	£140.00
Castell Conwy	£500.00	£200.00
Castell Dinbych	£270.00	£120.00
Castell Harlech	£400.00	£160.00
Castell Cydweli	£270.00	£120.00
Castell Talacharn	£270.00	£120.00
Castell Oxwich	£270.00	£120.00
Castell Rhaglan	£400.00	£160.00
Castell Rhuddlan	£270.00	£120.00
Capel y Rug/Llangar	£270.00	£120.00
Abaty Ystrad Fflur	£270.00	£120.00
Llys yr Esgob Tyddewi	£270.00	£120.00
Abaty Glyn y Groes	£270.00	£120.00
Safleoedd heb staff sydd heb eu rhestru	£270.00	£120.00

Nid yw bendithion priodasol, gwasanaethau coffa a ffotograffiaeth priodasau ar gael ar safleoedd Cadw sydd â thrwyddedau ar gyfer seremonïau sifil, mae'r rhain yn cynnwys: Castell Coch, Castell Cas-gwent, Tŷ Tref Elisabethaidd Plas Mawr a Llys a Chastell Tretŵr

Mae Cadw yn air Cymraeg sy'n golygu 'caðw' neu 'warchoð'.

Gyda'ch help chi, mae Cadw'n gweithio i sicrhau amgylchfyd hanesyddol, hygyrch ac wedi ei warchod yn dda i Gymru.

Nod Cadw yw:

- Gwarchod treftadaeth Cymru
- Cynnal cymeriad arbennig tirwedd Cymru
- Helpu pobl i ddeall ac ystyried eu hanes
- Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i les pobl yng Nghymru

Drwy ddewis lleoliad o Gasgliad Cadw ar gyfer eich bendithion neu ffotograffiaeth priodasol, rydych yn cyfrannu at y nodau hyn. Mae'r holl incwm a gynhyrchir trwy ddigwyddiadau, priodasau a ffotograffiaeth yn cynnal mentrau, prosiectau a rhaglenni gwarchod Cadw.

Llun: Castell Coch

Benðithion prioðas a ðathliaðau

Rhaid dilyn y canllawiau canlynol mewn perthynas â phob archeb bendith/coffáu. Dyma ddiffiniad Cadw o fendith/coffâd priodas:

- Digwyddiad sy'n cynnwys darlleniad byr, darllen darn o farddoniaeth neu gyfnewid addunedau digrefydd wedi'i leoli mewn un o henebion Cadw. Mae hyn hefyd yn cynnwys tynnu lluniau.
- Gall bendithion a dathliadau gynnwys hyd at 40 o bobl a fydd yn cynnwys y cwbl, y gweinydd a'r ffotograffydd. Os yw'r person sy'n hurio yn gofyn am westeion ychwanegol yna bydd prisiau mynediad safonol yn weithredol.
- Bydd yr heneb ar gael i'w defnyddio hyd at uchafswm o 90 munud. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser ar gyfer y seremoni a thynnu lluniau. Bydd hyn yn cymryd lle yn ystod oriau agor safonol yr heneb honno.
- Bydd y gost safonol am gynnal bendith yn daladwy un mis ymlaen llaw. Ni fydd ad-daliad ar gael.
- Bydd angen cyfeirio pob cais am hurio preifat i'r pencadlys i'w asesu cyn rhoi unrhyw benderfyniad.
- Os bydd cwsmeriaid am ddefnyddio unrhyw un o'r cyfarpar canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhestr yma) neu eu bod yn dymuno derbyn gwasanaeth y tu allan i oriau arferol yna caiff y cais ei ystyried ar sail llogi preifat ac nid fel bendith briodasol/dathliad/coffâd:
  - System sain PA
  - Offer Clywedol
  - Offer Gwresogi
  - Byrddau
  - Cadeiriau
  - Goleuadau
  - Adeileddau (dim unrhyw fath o Gazebo/Marquee)
  - Arlwyo
  - Addurniadau (o unrhyw fath)
  - Nodweddion dŵr/Ffynhonnau

Prioðas – Ffotograffiaeth

Bydd rhaid dilyn y canllawiau canlynol mewn perthynas â phob archeb ar gyfer tynnu lluniau mewn priodas:

- Gallwch gynnwys hyd at uchafswm o 15 o bobl fydd yn cynnwys y cwbl briodasol a'r ffotograffydd. Os yw'r huriwr yn gofyn am westeion ychwanegol, yna bydd prisiau mynediad safonol ar gyfer y safle yn weithredol.
- Gallwch ddefnyddio'r heneb hyd at uchafswm o 90 munud. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser ar gyfer tynnu lluniau. Bydd angen i hyn gymryd lle yn ystod oriau agor arferol yr heneb.
- Bydd cost safonol am dynnu lluniau yn daladwy un mis ymlaen llaw. Ni fydd ad-daliad ar gael.

Cadw.llyw.cymru

@CadwWales @cadwcymru @cadwcymruwales

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43161